**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

481/51

**Y GYFRAITH – LW1**

**CYFUNDREFN GYFREITHIOL CYMRU A LLOEGR**

A.M. DYDD LLUN, 12 Mehefin 2006

(45 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL:**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**


- Dylech ateb **un** cwestiwn yn unig.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

- Mae pob cwestiwn werth 25 marc.
- Atgoffir chi o'r angen am Gymraeg da ac am gyflwyniad clir yn eich atebion. Dylid ateb pob cwestiwn mewn rhyddiaith ddi-dor. Asesir ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob ateb.

*Atebwch* **naill ai** *Cwestiwn* **un neu** *Gwestiwn* **dau**.

**1.** Astudiwch y graff bar yn ofalus cyn ateb y cwestiynau a seilir arno.




Ffynhonnell: *Adroddiad Blynyddol Ystadegau Cyfreithiol 2004*
*(Adran Materion Cyfansoddiadol)*

*(a)* Beth mae'r data a restrir uchod yn ei ddangos? [3]

*(b)* Eglurwch rôl tribiwnlysoedd gweinyddol. [7]

*(c)* Pam mae angen diwygio'r gyfundrefn dribiwnlysol? [15]

**2.** Darllenwch y darn canlynol yn ofalus ac atebwch y cwestiynau a seilir arno.

"Mae ymchwil a wnaethpwyd gan Uned Ymchwil Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn 2002 yn dangos bod dros 1.5 miliwn o bobl yn methu â chymryd unrhyw gamau i ddatrys eu problemau cyfreithiol oherwydd diffyg gwybodaeth ynglŷn â beth i'w wneud. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod pobl o grwpiau dan anfantais, fel y rhai ag afiechydon parhaus neu anabledd, yn fwy tebygol o gael problemau cyfreithiol. Fel mater o ddiddordeb, dangosodd y gwaith ymchwil hefyd y rôl bwysig y mae ymgynghorwyr heb gymwysterau cyfreithiol yn ei chwarae. Ni wnaeth 40% o'r rhai a ymatebodd i'r ymchwil ofyn am help gyda'u problemau cyfreithiol oddi wrth ffynonellau traddodiadol cymorth cyfreithiol fel cyfreithwyr neu ganolfannau cynghori, ond yn lle hynny, aethant at weithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol, swyddfeydd nawdd cymdeithasol a sefydliadau crefyddol. Mae'r wybodaeth hon yn herio ein rhagdybiaethau am y modd mwyaf effeithiol i geisio gwella'r ffordd o fynd ati i gael cyngor a chymorth cyfreithiol."

Ffynhonnell: Malleson – *Y Gyfundrefn Gyfreithiol*
Ail Argraffiad (2005) OUP

*(a)* Gan gyfeirio at y darn uchod, beth yw'r rhagdybiaethau a wneir ynglŷn â'r "modd mwyaf effeithiol i geisio gwella'r ffordd o fynd ati i gael cyngor a chymorth cyfreithiol"? [5]

*(b)* Trafodwch sut yr aildrefnwyd Cymorth Cyfreithiol trwy gyflwyno tendro cystadleuol *(competitive tendering)* am gontractau i waith Cymorth Cyfreithiol. [5]

*(c)* Nodwch sut mae'r Llywodraeth wedi ceisio datrys problem y rhai nad ydynt yn cael y cymorth cyfreithiol sydd ei angen arnynt, drwy sefydlu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol *(CLS)*. [15]